LC492

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) (Diwygio)(Cymru) 2002**

Mae hwn yn cyflwyno gofyniad bod yn rhaid cyflwyno datganiad, ar y cyd â cheisiadau cynllunio am fathau penodol o ddatblygiad telathrebu, bod y cyfarpar yn cydymffurfio â safonau ymbelydredd penodol.

Rheol Sefydlog 11.5

Pwyntiau i'w Hystyried

1. Gan nad oes unrhyw ddarpariaeth gyfredol sy'n ei gwneud yn anghyfreithlon i osod neu weithredu antenae nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau y cyfeirir atynt yn erthygl 5A(3) a fewnosodwyd, gallai ymholiad godi ynglŷn â'r pwerau y gwneir y gorchymyn presennol oddi tano, o ystyried ei fod yn cael effaith o atal cyfarpar nad ydynt yn cydymffurfio rhag cael eu gosod na'u gweithredu (drwy ei gwneud yn amhosibl i wneud cais am ganiatâd cynllunio). Gellir dadlau bod y pwerau y gwneir y gorchymyn oddi tanynt yn ymwneud ag agweddau trefniadol yn unig ar wneud ceisiadau am ganiatâd cynllunio a rhoi caniatâd cynllunio ac nad ydynt yn caniatáu gosod gwaharddiadau ar wneud ceisiadau am fathau penodol o ddatblygiad.

Sylwadau a ddaeth i law

2. Daeth sylwadau i law gan ac ar ran y Gweinidog fel y'u nodwyd yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn. Mae'r sylwadau hyn yn gwneud y pwyntiau canlynol –

(a) Nodir mai adrannau 59, 65 a 74 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yw'r prif bwerau y cynigir gwneud y gorchymyn oddi tanynt.

(b) Mewn perthynas ag adran 59, cyfeirir yn benodol at isadran (2)(b), sy'n galluogi'r Cynulliad, drwy orchymyn, i ddarparu i'r awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio "yn unol â darpariaethau'r gorchymyn".

(c) Enwir adran 62 fel adran sy'n rhoi'r pŵer i'r Cynulliad bennu ym mha "fodd" y dylid "caniatáu" (sic) ceisiadau am gynllunio a'r dystiolaeth sydd ei hangen i'w dilysu.

(ch) Cyfeirir at adran 65(3) y gall fod yn ofynnol i ymgeisydd ardystio, ar y cyfryw ffurf a bennir, neu roi tystiolaeth, bod gofynion y gorchymyn wedi'u bodloni, oddi tani.

(d) Mewn perthynas ag adran 74(1) cyfeiria'r sylwadau at y geiriad agoriadol sy'n caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud sy'n "rheoleiddio ymha fodd yr ymdrinnir â cheisiadau am ganiatâd cynllunio i ddatblygu tir".

(dd) Honnir bod y gorchymyn –

"yn ymwneud ag ym mha fodd ac ar ba ffurf y dylid gwneud cais am ganiatâd cynllunio" a "yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol gael ei chyflwyno ar y cyd â chais ac yn pennu'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei darparu i ategu'r cais".

(e) Cyfeirir at gynsail darpariaeth debyg yn yr Alban, ac at ymgynghoriadau a gynhaliwyd â'r diwydiant telathrebu.

Casgliadau

3. Mewn perthynas â 2(b) uchod gwahoddir y Cynulliad i ystyried y posibilrwydd y gellir dweud nad yw adran 59(2)(b) yn ddigon eang i ganiatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud lle na ellir rhoi caniatâd cynllunio ond i ddatblygiad sy'n bodloni gofynion penodol, o gofio mai cynllun cyffredinol adran 59 yw darpariaeth sy'n caniatáu i'r Cynulliad ddarparu ar gyfer rhoi caniatâd cynllunio drwy orchymyn datblygu (h.y. y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) neu, mewn perthynas â phob datblygiad arall, drwy wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol yn unol â darpariaethau'r gorchymyn (y Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol).

4. Mewn perthynas â 2(c) uchod, nodir nad yw adran 62 yn un o'r pwerau y byddai'r gorchymyn arfaethedig yn cael ei wneud oddi tanynt. Nid yw wedi'i chynnwys yn y pwerau a enwir, ac yn wir, mae'n bŵer i wneud rheoliad ac nid pŵer i wneud gorchymyn. Yn ogystal, mae adran 62 ond yn ymwneud â'r modd y dylid gwneud cais ac â chynnwys manylion a dilysu tystiolaeth fel y'u pennwyd. Felly pe bai rheoliadau o dan adran 62 wedi'u cynnig, byddai angen ystyried o hyd ai pŵer trefniadol yn unig yn hytrach na phŵer

y gellir ei ddefnyddio i atal ceisiadau am fathau penodol o ddatblygiad rhag cael eu gwneud yw'r pŵer hwnnw.

5. Mewn perthynas â 2(ch) uchod, gwahoddir y Cynulliad i nodi nad yw'r gorchymyn arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i wneud datganiad bod "unrhyw ofynion y gorchymyn wedi'u bodloni" ond datganiad bod gofynion argymhelliad Cyngor yr UE wedi'u bodloni.

6. Mewn perthynas â 2(d) uchod, gwahoddir y Cynulliad i ystyried, o gofio geiriad adran 74(1) yn ei gyfanrwydd, a ellid dweud na ellid o reidrwydd dehongli'r pŵer i reoleiddio ym mha fodd yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio fel pŵer i atal ceisiadau am fathau penodol o ddatblygiad. Gwahoddir y Cynulliad, yn arbennig, i nodi yr ymdrinnir â darpariaeth ar gyfer cyfyngu ar roi caniatâd cynllunio am fathau penodol o ddatblygiad yn benodol ym mharagraff (a) adran 74(1) lle y gellir gwneud darpariaeth drwy orchymyn i alluogi'r Cynulliad i roi cyfarwyddiadau sy'n cyfyngu ar roi caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio leol. Dyma'r ddarpariaeth, a wnaed yn erthygl 14 y Gorchymyn Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol. Felly hwyrach ei bod yn berthnasol ystyried p'un a ddylid ymarfer y cyfyngiad, y ceisir ei osod bellach ar roi caniatâd cynllunio, drwy roi cyfarwyddyd o dan erthygl 14.

7. Mewn perthynas â 2(dd) uchod awgrymir bod angen i'r Cynulliad ystyried a ellid dweud, er yr ymddengys bod y gorchymyn yn cyflwyno darpariaeth sydd ond yn ymwneud ag agweddau trefniadol ar wneud cais cynllunio, ei fod, mewn gwirionedd, yn mynd ymhellach na hynny am mai effaith y gorchymyn yw ei gwneud yn amhosibl gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer cyfarpar nad yw'n cydymffurfio.

8. Nodwyd y pwyntiau a wnaed yn 2(e) uchod, a deellir yn llwyr y gall y Cynulliad ystyried bod cynsail yr Alban a'r gwaith craffu ar gynigion Cymru gan y diwydiant telathrebu yn cefnogi'r dehongliad arfaethedig o'r pwerau galluogi perthnasol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai'r Cynulliad fod yn ymwybodol o'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn. Yr unig bwynt i'w ychwanegu yw na fyddai mater yn codi, os mai dim ond cyflwyno datganiad sy'n nodi a yw'r datblygiad yn cydymffurfio â'r canllawiau ai peidio yw'r gofyniad yn hytrach na gofyniad am ddatganiad cydymffurfiad.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

25 Mehefin 2002

**Annex**
**Observations Received on Behalf of the Minister**

**The Town and Country Planning (General Development Procedure) (Amendment) (Wales) Order 2002**

The issue which you raise, and which would lead you to advise the Committee to consider reporting to the Assembly under SO 11.5 that there is doubt whether the proposed order is within the Assembly's powers, is the use of powers which you see as relating solely to the procedural aspects of applications for granting planning applications for the purpose of, in effect, prohibiting certain kinds of development. You will remember that the order would require applications for planning permission for telecommunications antennae to be accompanied by a certificate of compliance with ICNIRP guidelines.

The main powers under which the order is proposed to be made are sections 59, 65 and 74 of the Town and Country Planning Act 1990. These are very wide and expressly include power :

to "provide for the granting of planning permission by the local planning authority…..on application to the authority *in accordance with the provisions of the order*". (s. 59(2)(b))

- to prescribe the "manner" in which applications for planning permission are to be granted and the evidence required to verify them (s.62)
- to "require an applicant for planning permission to certify, in such form as may be prescribed by the order, or to provide evidence, that any requirements of the order have been satisfied." (s. 65(3))
- for "regulating the manner in which applications for planning permission to develop land are to be dealt with". (s. 74(1))
- The proposed order deals with the form and manner of making an application for planning permission. It requires an application to be accompanied by certain information and prescribes the evidence which has to be furnished in support of the application. These provisions fall within the powers set out above.

The proposed order follows the precedent set by the Town and Country Planning (General Development Procedure) (Scotland) Amendment Order 2001 (SSI 2001/245) made under sections 30, 32 and 275 of the Town and Country Planning (Scotland) Act 1997 (1997 c.8). Sections 30 and 32 are identical in substance to sections 59 and 62 of the Town and Country Planning Act 1990.

The proposal has been the subject of extensive consultation with the telecommunications industry, who already accept a voluntary obligation to meet the standard in question. Whilst it is right to say that they would prefer to keep the status quo, they are fully aware of what is proposed and of the Scottish precedent and have not raised any legal objections to the proposed provision.

**Having carefully considered the matters which you raise, Planning Division therefore intend to proceed with the proposed order in its original form.**